

Ordinhad 11: Datganiadau Budd

Corff Cymeradwyo:	Y Cyngor
Dyddiad Cymeradwyo:	24 Ebrill, 2020
Perchennog y Polisi:	Ysgrifennydd y Brifysgol
Swyddog Polisi:	Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio
Statws y Polisi:	Newydd
Fersiwn:	1.0
Dyddiad adolygu:	Ebrill 2023

Ordinhad 11: Datganiadau Budd

1. Mae'r Ordinhad hwn yn gofyn bod unrhyw aelod o'r Llys, y Cyngor, y Senedd neu unrhyw bwyllgor ohonynt sydd â budd personol, ariannol neu fuddiol mewn unrhyw fater a drafodir yn datgelu'r budd hwnnw.
2. Rhaid i unrhyw aelod o'r Llys, y Cyngor, y Senedd neu unrhyw bwyllgor ohonynt sydd wedi datgelu budd mewn unrhyw fater dan ystyriaeth dynnu'n ôl o unrhyw drafodaeth y caiff y mater sydd wedi ennyn y datganiad budd ei ystyried ynddo trwy gydol y drafodaeth ar y mater.
3. Ni ystyrir bod gan unrhyw aelod o'r Llys, y Cyngor, y Senedd nac unrhyw bwyllgor ohonynt sy'n aelod o staff y brifysgol fudd at ddibenion yr Ordinhad hwn yn rhinwedd ei swydd fel un o aelodau staff y brifysgol.
4. Ni ystyrir bod gan unrhyw aelod o'r Llys, y Cyngor, y Senedd nac unrhyw bwyllgor ohonynt sy'n fyfyrwr cofrestredig yn y brifysgol fudd at ddibenion yr Ordinhad hwn yn rhinwedd ei statws fel un o fyfyrwyr y brifysgol.
5. Ni fydd unrhyw benderfyniad a wneir mewn modd priodol gan y Llys, y Cyngor, y Senedd nac unrhyw bwyllgor ohonynt yn annilys oherwydd methiant aelod i ddatgan budd yn y cyfarfod y gwnaed y penderfyniad ynddo.
6. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn cadw Cofrestr Buddiannau aelodau'r Cyngor a Phenaethiaid Colegau/Ysgolion, Adrannau Gwasanaeth Canolog ac eraill mewn swyddi o awdurdod priodol, a fydd ar gael i'w harchwilio ar unrhyw adeg resymol.
7. Bydd y gofrestr hon yn cynnwys gwybodaeth am benodiadau, swyddi cyfarwyddwyr cwmnïau, swyddi cyhoeddus, ac unrhyw fuddiannau teuluol perthnasol, ond ni fydd yn cofnodi unrhyw wybodaeth ynglŷn â chyfranddaliadau neu fuddsoddiadau eraill a allai fod gan aelodau'r Cyngor, uwch swyddogion neu eu teuluoedd.
8. Rhaid i bob aelod newydd o'r Cyngor ddarparu datganiad o wybodaeth i Ysgrifennydd y Cyngor i'w gynnwys yn y Gofrestr cyn pen tri mis ar ôl dechrau eu cyfnod fel aelod o'r Cyngor. Rhaid i uwch swyddogion gyflenwi'r wybodaeth sy'n ofynnol cyn pen tri mis ar ôl ymgymryd â'u swyddi fel uwch swyddogion y brifysgol.
9. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn gofyn i'r rhai a restrir o dan 6 uchod adolygu eu cofnodion yn y Gofrestr unwaith pob blwyddyn academiaidd.